



Polisi Masnachu ar y Stryd

Gwasanaethau Rheoleiddio
Y Swyddfa Ddinesig
Bae Colwyn
LL29 8AR

Cynnwys

- 1 Diben
- 2 Beth yw Masnachu ar y Stryd?
- 3 Eithriadau
- 4 Masnachu ar y Stryd lle nad oes angen talu ffioedd
- 5 Y Broses Ymgeisio
- 6 Asesiad Safle
- 7 Amodau Cyffredinol
- 8 Gorfodi
- 9 Strwythur Ffioedd
- 10 Dirprwyo Swyddogaethau
- 11 Adnewyddu
- 12 Penderfyniadau
- 13 Cyffredinol
- 14 Adolygu'r Polisi
- 15 Cysylltiadau

Atodiad A - Rhestr o Strydoedd Gwaharddedig

Atodiad B - Strwythur Ffioedd

Atodiad C - Ffurflen Cais am Ganiatâd

Atodiad D - Ffurflen Gais Cynorthwywyr

1 Diben

1.1 Polisi'r Cyngor o ran Masnachu ar y Stryd yw creu amgylchedd masnachu ar y stryd sy'n cyflenwi'r masnachu sy'n digwydd mewn eiddo, sy'n sensitif i anghenion y preswylwyr, sy'n rhoi amrywiaeth a dewis i brynwyr ac sy'n anelu i ychwanegu at gymeriad, naws a diogelwch yr amgylchedd lleol.

2 Beth yw Masnachu ar y Stryd?

2.1 Mae Masnachu ar y Stryd yn golygu gwerthu, arddangos neu gynnig unrhyw eitem i'w gwerthu ar y stryd. Mae'r term 'stryd' yn cynnwys unrhyw ffordd, man gwasanaeth, troedffordd neu unrhyw ardal arall y gall y cyhoedd gael mynediad iddi heb dalu. Gall hyn hefyd gynnwys tir preifat.

2.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu Atodlen 4 yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ar gyfer holl Ardal y Fwrdeistref Sirol. Mae'r holl strydoedd yn yr ardal hon wedi'u dynodi'n Stryd Caniatâd ac eithrio'r strydoedd hynny a ddynodir yn Strydoedd Gwaharddedig (Atodiad A) (ac eithrio Cymuned Llysfaen).

2.3 Effaith y dynodiad hwn yw bod Masnachu ar y Stryd ar Strydoedd Caniatâd wedi'i wahardd (yn amodol ar eithriadau cyfreithiol) heb gael Caniatâd Masnachu ar y Stryd yn gyntaf gan y Cyngor.

2.4 Ni chaniateir Masnachu ar y Stryd ar Stryd Waharddedig ar unrhyw bryd. Gall unrhyw un a ganfyddir yn masnachu ar stryd waharddedig fod yn agored i gael ei erlyn.

3 Eithriadau

3.1 Ceir rhai mathau o fasnach sydd wedi'u heithrio o'r angen i gael caniatâd masnachu ar y stryd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- unigolyn sy'n masnachu o dan awdurdod tystysgrif pedleriaid a ganiatawyd o dan Ddeddf Bedleriaid 1871
- masnachu a gyflawnir gan ddyn rownd, e.e. dyn llaeth
- masnachu a gyflawnir mewn gorsaf betrol
- gwerthwyr newyddion mewn rhai amgylchiadau
- masnachu a gyflawnir ar stryd sy'n gyfagos â siop; ar yr amod ei fod yn rhan o fusnes y siop honno (ni ddylai busnes o'r fath fod yn rhwystr ar y briffordd).
- pob marchnad stryd awdurdodedig.

4 Caniatâd Masnachu Stryd lle nad oes angen talu ffioedd

4.1 Ni fydd yn ofynnol i dalu ffioedd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y gweithgarwch masnachu ar y stryd canlynol:

- digwyddiadau elusennol (y mae'n rhaid sicrhau trwydded Casglu ar y Stryd neu Gasglu o Dŷ i Dŷ ar ei gyfer)
- deiliaid tai sy'n gwerthu eitemau ar dir sy'n gyfagos â'u tai
- y marchnadoedd stryd awdurdodedig ym Mae Colwyn a Llanrwst

5 Y Broses Ymgeisio

5.1 Gellir rhoi Caniatâd Masnachu ar y Stryd ar gyfer:

- 'Safle Sefydlog' a gynigir gan yr ymgeisydd (os tybir bod y safle hwnnw'n addas)
- 'Parth Crwydrol' (caniatâd ar draws y Fwrdeistref Sirol lle caiff rhestr o arosfannau/strydoedd ei chynnwys gyda'r cais, h.y. gwerthwyr bwyd symudol)

5.2 Mae'r ffurflenni cais Masnachu ar y Stryd i'w cael yn Atodiadau C a D.

5.3 Wrth ymgeisio am Ganiatâd 'Safle Sefydlog', rhaid darparu map (gellir cyflwyno map wedi'i llunio â llaw) gyda'r cais sy'n dangos yr union fan lle bwriedir lleoli'r uned ar y stryd/ffordd.

5.4 Mae'n rhaid i rai sy'n ymgeisio am 'Ganiatâd Crwydrol' (e.e. gwerthwyr bwyd symudol) gynnwys rhestr o'r holl strydoedd lle byddant yn aros i fasnachu.

5.5 Gall mwy nag un unigolyn fod yn ddeilydd Caniatâd Masnachu ar y Stryd ar yr amod bod gan yr unigolyn hwnnw/unigolion hynny fuddiant busnes ac awdurdod i reoli'r safle Masnachu ar y Stryd. Ar ôl rhoi caniatâd, bydd y sawl sy'n rhoi caniatâd yn cael ei ddal yr un mor gyfrifol am unrhyw achos o dorri amodau Caniatâd Masnachwyr Stryd.

5.6 Rhaid i bob cynorthwydd lenwi ffurflen gais Cynorthwydd, a bydd hefyd yn ddarostyngedig i unrhyw amodau cyffredinol a gynhwysir yn y Polisi hwn ac unrhyw amodau penodol ynghlwm wrth y Caniatâd.

5.7 Rhaid i bob un ymgeisydd gyflwyno lluniau pasbort lliw cyfatebol (heb het na sbectol haul) gyda'i gais.

5.8 Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio fydd yn penderfynu ynghylch canlyniadau. Gellir gwrthod cais am unrhyw reswm rhesymol.

6 Asesiad Safle

6.1 Wrth benderfynu a yw Masnachu ar y Stryd yn briodol mewn ardal neilltuol, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- unrhyw effaith ar ddiogelwch y ffyrdd, naill ai'n deillio o leoliad y safle ei hun neu wrth i gwsmeriaid fynd a dod ohono.
- unrhyw achos o golli amwynder oherwydd sŵn, traffig neu arogl
- Gorchmynion Traffig presennol ee cyfyngiadau ar aros
- unrhyw rwystr posibl sy'n atal mynediad i gerddwyr neu gerbydau
- unrhyw rwystr sy'n atal cerddwyr rhag mynd heibio'n ddiogel
- gallu cwsmeriaid a staff i fynd a dod o'r safle ac o'r cyffiniau
- a roddwyd unrhyw Ganiatâd (Sefydlog neu Grwydrol) eisoes ar gyfer safle yn y cyffiniau

7 Amodau Cyffredinol

7.1 Yn ogystal â'r uchod, bydd angen bodloni'r meini prawf canlynol cyn bod modd rhoi Caniatâd Masnachu ar y Stryd:

Atal rhwystr neu berygl i ddefnyddwyr y ffordd

- I'w leoli'n unol â'r ddeddfwriaeth priffyrdd fel bo'n briodol, fel nad oes rhwystr yn cael ei achosi i ddefnyddwyr y briffordd nac i eiddo cyfagos
- Rhaid lleoli unrhyw gerbyd fel nad yw'n annog plant i groesi unrhyw ffordd heb oruchwyliaeth.
- Ni ddylid defnyddio byrddau hysbysebu ar wahân i fyrddau'n gyfagos â'r cerbyd
- Rhaid i'r gweithredwr roi'r gorau i fasnachu os yw'r Awdurdod Priffyrdd neu'r gwasanaethau brys yn gofyn iddo wneud hynny.

Atal niwsans neu boendod

- Ni chaniateir unrhyw gerddoriaeth ar y safle, nac unrhyw ddarllediadau o safle'r Caniatâd heb ganiatâd yr awdurdod hwn
- Darperir biniau sbwriel a chesglir sbwriel fel bo'n briodol lle bydd sbwriel yn debygol o gael ei gynhyrchu
- Rhaid ymrwymo i gontract sbwriel lle bo'n debygol y bydd sbwriel yn cael ei gynhyrchu
- Ni ddylent alw heibio anheddau'n ddiwahoddiad mewn Parth Rheoli Galwadau Diwahoddiad

Addasrwydd yr ymgeisydd

- Gellir gwrthod y cais os nad yw'r ymgeisydd yn addas i ddal caniatâd am unrhyw reswm y daw'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio i wybod amdano.
- Ni ellir rhoi caniatâd i unigolyn sy'n iau na 18 oed

7.2 Nid roddir caniatâd fel arfer ar gyfer gwerthu taclau cyffuriau, anifeiliaid byw, catapyltiau nad ydynt ar gyfer pysgota, gynnuau BB, cleddyfau, neu gyllyll.

8 Gorfodi

8.1 Er mwyn sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth, rhaid cyflawni pob gorfodaeth yn unol â Pholisi Gorfodi'r Gwasanaethau Rheoleiddio, a bydd pob achos o orfodi'n gyson, yn deg, yn gymesur, yn dryloyw ac yn wrthrychol

8.2 Mae'n bosibl y ceir amodau safonol ynghlwm wrth unrhyw Ganiatâd Masnachu ar y Stryd sy'n nodi cyfrifoldebau'r deilydd i gynnal diogelwch y cyhoedd, i osgoi niwsans ac i gadw amwynder cyffredinol yr ardal leol.

8.3 Rhaid i bob masnachwr sicrhau bod trwydded ar gyfer y caniatâd wedi'i harddangos yng ngolwg y cyhoedd lle bo'n ymarferol.

8.4 Rhaid i bob masnachwr / cynorthwywr wisgo ei fathodyn adnabod masnachwr / cynorthwydd ar bob achlysur wrth fasnachu.

8.5 Gallai methu cydymffurfio ag unrhyw amodau arwain at dynnu'r Caniatâd yn ôl neu beidio â'i adnewyddu.

8.6 Mae masnachu ar y stryd heb ganiatâd y Cyngor yn drosedd, a bydd unrhyw un a geir yn euog o wneud hynny'n agored i ddirwy o hyd at £1,000. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw unigolyn sy'n meddu ar dystysgrif o dan Ddeddf Bedleriaid 1871, ond nad yw'n gweithredu'n unol â'r dystysgrif honno.

9 Strwythur Ffioedd

9.1 Mae gan y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio awdurdod dirprwyol i bennu ffioedd ac i gynnal adolygiad blynyddol o'r strwythur ffioedd. Nodir y strwythur ffioedd yn Atodiad B.

10 Dirprwyo Swyddogaethau

10.1 Dirprwyir ceisiadau am Ganiatâd ar gyfer Masnachu ar y Stryd i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio. Fodd bynnag, mae Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio'r Cyngor yn cadw'r pŵer i ddiwygio dynodiadau Masnachu ar y Stryd neu i benderfynu ynghylch ceisiadau dadleuol.

10.2 Caiff y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio:

- Roi caniatâd a gosod yr amodau a dybir yn angenrheidiol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.
- Gostwng y ffi berthnasol neu ddiwygio unrhyw amod cyffredinol neu benodol ar gyfer unrhyw gais.
- Cyfeirio unrhyw gais i'w benderfynu gan Bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio'r Cyngor (Os cyfeirir cais i sylw'r Pwyllgor, gwneir penderfyniad ynglŷn â phob cais yn ôl ei rinweddau. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn ystyried yr holl wybodaeth sydd ynghlwm wrth y cais).
- Gwrthod unrhyw gais am Ganiatâd yn yr achosion canlynol:
 - I. Lle nad yw'r cais yn cydymffurfio ag amodau a pholisïau'r Cyngor ym marn y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio.
 - II. Lle gwrthodwyd cais tebyg gan y Pwyllgor yn ystod y 2 flynedd flaenorol.
- Gwrthod cais neu gais i adnewyddu am unrhyw reswm rhesymol.

11 Adnewyddu

11.1 Cyflwynir Caniatâd Masnachu ar y Stryd am gyfnod o hyd at flwyddyn o'r dyddiad caniatáu.

11.2 Wedi hynny, dylai ymgeiswyr ailgyflwyno'u cais fis o leiaf cyn i'w Caniatâd cyfredol ddod i ben os ydynt yn dymuno parhau i fasnachu.

12 Penderfyniadau

12.1 Ar ôl gwneud penderfyniad ynglŷn â chais, bydd y Cyngor yn hysbysu'r ymgeisydd am y canlyniad cyn gynted ag sy'n bosibl.

12.2 Nid oes hawl statudol i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi Caniatâd Masnachu ar y Stryd.

13 Cyffredinol

- 13.1 Bydd y polisi hwn yn cyflenwi ac yn llywio mentrau eraill y Cyngor, gan gynnwys rhai'n gysylltiedig â marchnadoedd stryd a bywyd ar dir y cyhoedd.
- 13.2 Bydd y polisi hwn yn llywio'r amodau manwl sydd ynghlwm wrth bob Caniatâd Masnachu ar y Stryd.
- 13.3 Cymhwysir y polisi hwn mewn modd sy'n gyson â pholisïau cydraddoldeb y Cyngor.
- 13.4 Gwneir penderfyniad ynglŷn â phob cais yn ôl ei rinweddau ar bob achlysur.

14 Adolygu'r Polisi

- 14.1 Caiff y Polisi hwn ei adolygu bob pum mlynedd. Yn ogystal â'r adolygiadau bob pum mlynedd, bydd y polisi'n parhau i gael ei werthuso, a gallai gael ei ddiweddarau ar unrhyw adeg. Rhaid i'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio gytuno ar unrhyw newidiadau i'r polisi hwn, onid yw'r swyddogaeth honno wedi'i dirprwyo i swyddog priodol.
- 14.2 Dirprwyir y cyfrifoldeb o bennu'r strwythur ffioedd i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio, ac adolygir y strwythur hwnnw'n flynyddol.

15 Cysylltiadau

Gwasanaethau Rheoleiddio
Yr Uned Drwyddedu
Y Swyddfeydd Dinesig
Bae Colwyn
LL29 8AR

e-bost: gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk

Ffôn: 01492 576626

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL

Strydoedd gwaharddedig mewn grym Prohibited streets with effect from 1st o'r 1af o Fehefin 1984, oni nodir yn June 1984, unless otherwise stated wahanol

RHESTR	SCHEDULE
(i) Yng Nghymuned Betws y Coed:	(i) In the Community of Betws y Coed:
Ffordd Craiglân Dolydd Terrace, Pentre Du	
(ii) Yng Nghymuned Conwy:	(ii) In the Community of Conwy
Lower Gate Street Bandstand (4.9.89) Marine Crescent, Deganwy Station Road, Deganwy (1.7.88) Ffordd Maelgwn, Llandudno Junction (1.7.93)	
a PHOB stryd sydd yn arwain i'r strydoedd uchod am hyd o 45.72 metr (50 llath) o'u cyffordd â'r rhain.	and ALL streets leading into the above mentioned streets for a distance of 45.72 metres (50 yards) from the point of junction therewith.
Lancaster Square, Conwy (20.11.95) Castle Square, Conwy (20.11.95) Rose Hill Street, Conwy (20.11.95)	
a PHOB stryd arall sydd yn arwain i mewn i'r sgwariau hynny a'r stryd honno am bellter o 50 metr o'u cyffordd gyda hwy.	and ALL other streets leading into those squares and that street for a distance of 50 metres from the point of junction therewith.
(iii) Yng Nghymuned Llandudno	(iii) In the Community of Llandudno
Abbey Road Augusta Street Bryniau Road -	
(o bont y Rheilffordd l'w chyffordd â Lloyd Street West)	(from the Railway Bridge to its junction with Lloyd Street West)
Chapel Street Clarence Road Clonmel Street Colwyn Road -	
(o'r Parade i Bryn y Bia Road)	(from the Parade to Bryn y Bia Road)
Conway Road -	
(o Vaughan Street i Maesdu Road)	(from Vaughan Street to Maesdu Road)
Dale Road Deganwy Avenue Gloddaeth Avenue Gloddaeth Street Great Orme's Road Happy Valley Road Lloyd Street -	
(o Mostyn Street i St Andrews Avenue / The Oval)	(from Mostyn Street to St. Andrews Avenue/The Oval)
Lloyd Street West -	

(o West Parade i Great Orme's Road)		(from West Parade to Great Orme's Road)
(o Bryniau Road i Maesdu Road)	Maesdu Avenue -	(from Bryniau Road to Maesdu Road)
	Mostyn Avenue Mostyn Broadway Mostyn Street Nant y Gamar Road North Parade Prince Edward Square Queens Road -	
(o'r Parade i Mostyn Avenue)	St. George's Place The Parade -	(from the Parade to Mostyn Avenue)
(o Happy Valley Road i Colwyn Road – A546)		(from Happy Valley Road to Colwyn Road – A546)
(ac eithrio blaengwrt Canolfan yr Henoed)	Trinity Avenue -	(excluding the forecourt of the Elderly People's Centre)
	Trinity Square Vaughan Street Upper Mostyn Street West Parade -	
(o Marine Drive i Dale Road)		(from Marine Drive to Dale Road)
a PHOB stryd sydd yn arwain i'r strydoedd uchod am hyd o 45.72 metr (50 llath) o'u cyffordd â'r rhain.		and ALL leading into the above mentioned streets for a distance of 45.72 metres (50 yards) from the point of junction therewith.
	Tudor Road (20.11.95)	
a PHOB stryd arall sydd yn arwain i mewn i Tudor Road am bellter o 50 metr o'u cyffordd gyda hi.		and ALL other streets leading into Tudor Road for a distance of 50 metres from the point of junction therewith.
(iv) Yng Nghymuned Llanfairfechan	Station Road Village Road	(iv) In the Community of Llanfairfechan
(v) Yng Nghymuned Llanrwst		(v) In the Community of Llanrwst
Stryd Siôr	/	George Street
Ffordd Pari	/	Parry Road
Ffordd Llanddoget	/	Llanddoget Road
Ffordd Tan yr Ysgol	/	School Bank Road
Ffordd Newydd	/	Abergele Road
Heol Ddinbych	/	Denbigh Street
Heol Watling	/	Watling Street
	Tan y Graig	
Glanrhyd	/	Conwy Terrace
Mynedfa'r Orsaf	/	Station Approach
Ffordd Gwydyr	/	Gwydyr Road
	Ancaster Square	
Tan yr Eglwys	/	Church Street
Bro Helyg	/	Willow Street

Atodiad B
Strwythur Ffioedd

Caniatâd Sefydlog

Blynyddol	£850.00
-----------	---------

Caniatâd Crwydrol

Blynyddol	£ 1250.00
-----------	-----------

Rhaid i bob cynorthwydd lenwi Ffurflen Gais Cynorthwydd sydd ar gael gan yr Uned Drwydedu. Mae Bathodynnau Adnabod Masnachwr / Cynorthwydd yn costio **£30.00** yr un.

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 – Atodlen 4

CAIS AM GANIATÂD MASNACHWR STRYD

DARLLENWCH Y NODIADAU AR DUDALEN 4 CYN LLENWI'R FFURFLEN

Manylion Personol: Ymgeisydd Rhif 1

1	Cyfenw			
2	Enw(au) cyntaf			
3	Cyfeiriad cartref			
4	Cod Post		5 Dyddiad Geni	
6	Rhifau Ffôn Adref/Symudol			

Manylion Personol: Ymgeisydd Rhif 2

7	Cyfenw			
8	Enw(au) cyntaf			
9	Cyfeiriad cartref			
10	Cod Post		11. Dyddiad Geni	
12	Rhifau Ffôn Adref/Symudol			

Ydych chi'n bwriadu masnachu o safle sefydlog neu grwydro ardal gymeradwy?

Safle sefydlog (gweler adrannau 13-17)

Crwydro (gweler adrannau 18-23)

Manylion y Lleoliad Masnachu (Caniatâd Sefydlog):

13	Safle Masnachu (rhowch enw'r stryd a'r union leoliad)	
14	Enw Masnachu (os yn berthnasol)	
15	Diwrnodiau Masnachu	
16	Amseroedd Masnachu	
17	Nwyddau neu Eitemau i'w Gwerthu - nodwch fath a safon y nwyddau, a'r dull o'u cyflwyno	

Manylion y Lleoliad Masnachu (Caniatâd Crwydrol):

18	Safle Masnachu (llwybr a ddilynir)	
19	Enw Masnachu (os yn berthnasol)	
20	Diwrnodiau Masnachu	
21	Amseroedd Masnachu	
22	Nwyddau i'w Gwerthu - nodwch fath a safon y nwyddau, a'r dull o'u cyflwyno.	
23	Nifer y cerbydau / stondinau / unedau	


Manylion y Cerbyd / Stondin / Uned:

24	Math o gerbyd / stondin / uned	
25	Os yw'n uned symudol, nodwch rif cofrestru'r cerbyd	
26	Cerbyd / stondin / uned - uchder	
27	Cerbyd / stondin / uned - lled	
28	Cerbyd / stondin / uned - hyd	

29 A yw'r awdurdod hwn, neu unrhyw awdurdod arall, erioed wedi gwrthod rhoi Trwydded Masnachu ar y Stryd i chi? Os ydynt, nodwch ddyddiadau a manylion

DO /
NADDO

.....



30 Ydych chi'n bwriadu defnyddio cynorthwywr? Os felly, nodwch faint ohonynt yr ydych am eu defnyddio.

Yr wyf yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod yr atebion a roddwyd yn wir, ac rwyf yn sylweddoli y gall gwybodaeth a ddatgelir ar y ffurflen gais hon gael ei darparu i asiantaethau awdurdodedig eraill.

Os rhoddir Caniatâd, yr wyf yn ymrwmo i gydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded a ganiateir, a hefyd i gydymffurfio â Deddf Diogelwch Bwyd 1990, lle bo'n briodol, ac unrhyw Reoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno. Yr wyf hefyd yn cytuno i ddarparu bin ar gyfer napcynnau ac ati, a byddaf yn symud y bin o'r safle ar fy nghost fy hun bob dydd.

Llofnod: _____ Enw mewn Llythrennau Bras: _____

Dyddiad: _____

Dulliau Talu:

Gellir talu drwy'r ffyrdd canlynol:

1. Siec (yn daladwy i "Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy").
2. Arian parod (peidiwch ag anfon arian parod drwy'r post). Dim ond unigolion sy'n eu cyflwyno eu hunain wyneb yn wyneb yn yr Uned Drwyddedu a gaiff ddefnyddio'r dull hwn o dalu.
3. Cerdyn Debyd / Credyd

NODIADAU

1. Gall mwy nag un unigolyn fod yn ddeilydd Caniatâd ar yr amod bod gan yr unigolyn hwnnw/unigolion hynny fuddiant busnes ac awdurdod i reoli'r safle masnachu ar y stryd. Ar ôl rhoi caniatâd, bydd gan y rhai hynny sy'n derbyn caniatâd gyfrifoldeb cyfartal am unrhyw achos o dorri amodau Caniatâd Masnachwyr Stryd.
2. Ni ddylai ymgeiswyr fod o dan 18 oed.
4. Rhaid i bob cynorthwydd lenwi ffurflen gais cynorthwydd sydd ar gael gan yr Uned Drwyddedu.
5. Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno lluniau pasbort lliw cyfatebol diweddar (heb het na sbectol haul) gyda'u cais.
7. Amgawch fap (gellir llunio'r map â llaw) yn dangos yr union leoliad lle bwriedir gosod yr uned ar y stryd/ffordd. Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer faniau symudol (ee gwerthwyr hufen iâ) gynnwys rhestr o'r holl strydoedd lle byddant yn aros i fasnachu.
8. Amgawch lun lliw o'r uned y bwriedir ei defnyddio ar gyfer masnachu.

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 - Atodlen 4

FFURFLEN GAIS AR GYFER CYNORTHWYDD MASNACHWR STRYD

DARLLENWCH Y NODIADAU AR DUDALEN 4 CYN LLENWI'R FFURFLEN HON

Manylion Personol:

1	Cyfenw	
2	Enw(au) cyntaf	
3	Cyfeiriad cartref	
4	Cod Post	5 Dyddiad Geni
6	Rhifau Ffôn Adref/Symudol	

Ydych chi'n bwriadu masnachu o safle sefydlog neu grwydro ardal gymeradwy?

Safle sefydlog (gweler adrannau 13-17)

Crwydro (gweler adrannau 18-22)

Manylion y Lleoliad Masnachu (Caniatâd Sefydlog):

13	Safle Masnachu (rhowch enw'r stryd a'r union leoliad)	
14	Enw Masnachu (os yn berthnasol)	
15	Diwrnodiau Masnachu	
16	Amseroedd Masnachu	
17	Nwyddau i'w Gwerthu - nodwch fath a safon y nwyddau, a'r dull o'u cyflwyno	

Manylion y Lleoliad Masnachu (Caniatâd Crwydrol):

18	Safle Masnachu (nodwch ardal ee 'Aberconwy' neu 'Colwyn' a manylion y llwybr a ddilynir)	
19	Enw Masnachu (os yn berthnasol)	
20	Diwrnodiau Masnachu	
21	Amseroedd Masnachu	
22	Nwyddau neu Eitemau i'w Gwerthu - nodwch fath a safon y nwyddau, a'r dull o'u cyflwyno	

Manylion y Cerbyd / Stondin / Uned:

23	Math o gerbyd / stondin / uned	
24	Os yw'n uned symudol, nodwch rif cofrestru'r cerbyd	
25	Cerbyd / stondin / uned - uchder	
26	Cerbyd / stondin / uned - lled	
27	Cerbyd / stondin / uned - hyd	

- 28 A yw'r awdurdod hwn, neu unrhyw awdurdod arall erioed wedi gwrthod rhoi Trwydded Masnachu ar y Stryd i chi? Os ydynt, nodwch ddyddiadau a manylion DO / NADDO

.....

Yr wyf yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod yr atebion a roddwyd yn wir, ac yr wyf yn sylweddoli y gall gwybodaeth a ddatgelir ar y ffurflen gais hon gael ei darparu i asiantaethau awdurdodedig eraill.

Os rhoddir Caniatâd, yr wyf yn ymrwymo i gydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded a ganiateir, a hefyd i gydymffurfio â Deddf Diogelwch Bwyd 1990, lle bo'n briodol, ac unrhyw Reoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno. Yr wyf hefyd yn cytuno i ddarparu bin ar gyfer napcynnau ac ati, a byddaf yn symud y bin o'r safle ar fy nghost fy hun bob dydd.

Llofnod: _____ Enw mewn Llythrennau Bras: _____

Dyddiad: _____

Dulliau Talu:

Gellir talu drwy'r ffyrdd canlynol:

4. Siec (yn daladwy i "Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy").
5. Arian parod (peidiwch ag anfon arian parod drwy'r post). Dim ond unigolion sy'n eu cyflwyno eu hunain wyneb yn wyneb yn yr Uned Drwyddedu a gaiff ddefnyddio'r dull hwn o dalu.
6. Cerdyn Debyd / Credyd

NODIADAU

1. Gall mwy nag un unigolyn fod yn ddeilydd Caniatâd ar yr amod bod gan yr unigolyn hwnnw/unigolion hynny fuddiant busnes ac awdurdod i reoli'r safle masnachu ar y stryd. Rhaid i bob ymgeisydd (nid y cynorthwywyr) lenwi datganiad statudol ar wahân y mae'n rhaid tynghu llw ar ei gyfer a'i stampio) o flaen Cyfreithiwr a chanddo hawl i weinyddu Llwon. Ar ôl rhoi caniatâd, bydd y sawl sy'n rhoi caniatâd yn cael ei ddal yr un mor gyfrifol am unrhyw achos o dorri amodau Caniatâd Masnachwyr Stryd.
2. Ni ddylai ymgeiswyr fod o dan 18 oed
3. Rhaid i bob cynorthwydd lenwi ffurflen gais cynorthwydd sydd ar gael gan yr Uned Drwyddedu. Mae Bathodynau Adnabod Masnachwr Stryd / Cynorthwydd yn costio **£10.00** yr un.
4. Os byddwch yn colli bathodyn adnabod masnachwr/cynorthwydd, rhaid ein hysbysu am hynny ar unwaith (codir tâl o £30.00 am bob bathodyn yn lle un a gollwyd).
5. Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno lluniau pasbort lliw diweddar (heb het na sbectol haul) gyda'u cais.